# Datgloi Llyfrgelloedd - Mynediad i Lyfrgell Caerfyrddin gyda'r Nos

Diolch am archebu ystafell yn Llyfrgell Caerfyrddin.

Mae eich archeb y tu allan i'n horiau staff, felly bydd angen i chi ddefnyddio ein system mynediad heb staff (Datgloi Llyfrgelloedd) i fynd i mewn i'r adeilad.

Mae’r mynediad ‘Datgloi Llyfrgelloedd’ ar gael rhwng 19:15 a 21:00 ar nos Lun a nos Iau.

I gofrestru ar gyfer y cynllun ‘Datgloi Llyfrgelloedd’, bydd angen i arweinydd grŵp, a chymaint o fynychwyr â phosibl, fod yn ddefnyddiwr cofrestredig Datgloi Llyfrgelloedd – defnyddiwr Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin. Mae angen trefnu hyn yn bersonol wrth ddesg y llyfrgell yn ystod oriau agor arferol, o leiaf 24 awr cyn archebu ystafell. Bydd angen llun adnabod gyda phrawf o'ch cyfeiriad i ymuno â'r llyfrgell os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes.

Pan fyddwch wedi cofrestru, gellir cael mynediad i'r adeilad gan ddefnyddio'ch cerdyn llyfrgell a'ch PIN wrth y darllenydd cerdyn y tu allan i'r brif fynedfa.

- Sganiwch eich cerdyn llyfrgell yn y slot darllenydd (côd bar yn wynebu i fyny)
- Rhowch y côd PIN sy'n gysylltiedig â'r cerdyn gan ddefnyddio bysellbad rhifol
- Bydd drysau'r adeilad yn agor.

Rydym yn argymell eich bod yn rhoi sylw i'r canlynol:

1. Os yn bosibl, ceisiwch gael mynediad i'r adeilad cyn eich cyfarfod pan fydd staff y llyfrgell yn dal i fod yn bresennol, yna gellir datrys unrhyw broblemau. Bydd staff y cownter yn galluogi'r system at ddibenion profi ar gais.
2. Os nad oes gan rai neu bob aelod o'ch grŵp fynediad ‘Datgloi Llyfrgelloedd’, dylai arweinydd y grŵp gael mynediad i'r adeilad gan ddefnyddio ei gerdyn llyfrgell ac yna aros i aelodau eraill y grŵp er mwyn rhoi mynediad iddynt i'r adeilad. Sylwer: peidiwch â gadael neb i mewn **nad** yw'n rhan o'ch grŵp.
3. Bydd arweinydd y grŵp yn cael gwybod am y llwybrau dianc mewn argyfwng a gweithdrefnau gwacáu a dylai gymryd sylw ohonynt wrth gofrestru ar gyfer y cynllun ‘Datgloi Llyfrgelloedd’. Os ydych eisoes yn ddefnyddiwr personol o’r cynllun ‘Datgloi Llyfrgelloedd’ ac yn dod yn arweinydd grŵp, rhowch wybod i staff fel y gallant egluro'r gweithdrefnau eto. Mae canllaw diogel ar gael ym mhob ystafell.
4. Os oes gennych chi ofynion TG penodol ar gyfer eich grŵp, trafodwch y rhain gyda staff y cownter cyn eich cyfarfod.
5. Mewn argyfwng, ffoniwch 999.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth am Gaerfyrddin y tu allan i oriau staff, cysylltwch â ni yn ystod oriau agor ar 01267 224824 neu e-bostiwch ni ar [ecsllyfrgell@sirgar.gov.uk](mailto:ecsllyfrgell@sirgar.gov.uk)**